Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Toothopia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 09 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth 2026





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83745-190-6
© Hawlfraint y Goron 2026

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........................................ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........................................ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........................................ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........................................ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................ 16

4. Y camau nesaf ........................................ 19

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........................................ 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................ 21

Atodiad C - Cynllun gwella ........................................ 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Toothopia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 09 Rhagfyr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Nodwyd gennym fod y staff yn Toothopia yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Roedd y safle yn darparu amgylchedd dymunol i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael mynediad at ofal arferol a brys yn hwylus.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol a chroesawgar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd gwybodaeth ddefnyddiol ar gael yn glir i gleifion
- Staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n effeithlon. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac roeddem o'r farn bod hyn yn arfer dda.

Roedd cofnodion y cleifion o safon arbennig o uchel, gyda gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi'n drylwyr ac yn gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol
- Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau arferion rheoli heintiau o safon uchel

- Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwnaethom nodi bod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Y prif ddeintydd oedd rheolwr y practis ac roedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, a oedd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Roedd y practis yn gwneud defnydd da o systemau electronig er mwyn helpu i reoli a gwella'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau rheoli effeithiol yn y practis
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff
- Tîm o staff sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan gleifion

Ymatebodd naw claf i holiadur AGIC, ac roedd y sylwadau'n gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’. Roedd pawb a ymatebodd yn fodlon ar lendid y practis ac yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gallai eglurder ynghylch costau ei driniaeth a chanllawiau ôl-ofal fod yn well.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> ***"Cyfeillgar iawn a pharod i helpu, yn rhoi sicrwydd i chi ac yn gallu trefnu apwyntiadau brys ar yr un diwrnod pan fo angen."***
>
> ***“Mae'r ddau ddeintydd yn gyfeillgar, wedi hawdd mynd atynt, yn brofiadol ac yn broffesiynol ar bob adeg."***

## Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**
Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael yn y practis i hyrwyddo byw yn iach ac iechyd da y geg. Roedd posteri a thaflenni ar gael am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, bwyta'n iach ac ymwybyddiaeth o ganser y geg. Roedd cwpwrdd arddangos yn dangos sawl math o ddiodydd meddal a faint o siwgr sydd ynddynt er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y cleifion.

Roedd copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd wrth ddesg y dderbynfa. Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben cyfredol a gwnaethom gynghori y dylid darparu copi ohono ar wefan y practis. Ymdriniwyd â'r mater hwn ar unwaith yn dilyn yr arolygiad, a chafodd y wefan ei diweddaru yn unol â hynny.

Roedd arwyddion ‘dim smygu’ yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb ond un ymatebydd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg yn glir ac wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd da y geg.

**Gofal urddasol a pharchus**

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac roedd gwydr barugog a bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu preifatrwydd y cleifion.

Roedd y drws ffrynt yn cael ei gloi i gyfyngu ar fynediad i'r practis, gyda'r cleifion yn defnyddio cloch y drws ac yn cael eu cyfarch gan staff y dderbynfa. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol ac yn gwirio a oedd ganddynt unrhyw symptomau o salwch anadlol wrth gyrraedd.

Roedd drws i ardal y dderbynfa y gellid ei gloi i roi preifatrwydd ychwanegol a galluogi'r cleifion i drafod unrhyw faterion yn breifat.

Roedd prisiau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat ar gael yn glir i'r cleifion ar bosteri yn ardal y dderbynfa a'r ystafelloedd aros. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd naw egwyddor foesegol cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd enwau'r deintyddion a'r therapydd, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu allan i'r practis. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys enwau a rolau'r holl staff sy'n ymwneud â thrin cleifion a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**
Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanesion meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ac roedd pawb ond un yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth ynghylch risgiau a manteision yr opsiynau.

## Amserol

**Gofal amserol**
Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion ar lafar pe bai unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad ac yn cynnig trefnu apwyntiad arall pe bai angen.

Dywedodd y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o amserlen ddyddiol pob deintydd a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion. Roedd rhestr ar gyfer apwyntiadau wedi'u canslo ar waith i sicrhau bod apwyntiadau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol.

Roedd rhifau ffôn i gael gofal brys y tu allan i oriau i gleifion y GIG a chleifion preifat ar gael y tu allan i'r practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd pawb ond un a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n ‘hawdd iawn’ neu'n ‘eithaf hawdd’ cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn gallu siarad Cymraeg â'r cleifion os mai dyna eu dymuniad. Roedd gan y practis dîm sefydledig a gwybodaeth dda am eu cleifion a gofynion cyfathrebu. Roedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion.

Gwelsom amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r cynllun 'Cynnig Rhagweithiol' a gwnaethom argymell eu bod yn gofyn am gymorth gan y bwrdd iechyd lleol i roi'r cynllun ar waith, fel sy'n briodol i anghenion y cleifion.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ofyn am gyngor a chymorth gan y bwrdd iechyd lleol a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith.**

### Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a nodweddion gwarchodedig perthnasol. Roedd gan y practis hefyd bolisi gwahaniaethu ar sail anabledd.

Gwelsom fod archwiliad o hygyrchedd i bobl anabl wedi cael ei gynnal ac roedd darpariaeth ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Os oedd gan gleifion anghenion penodol, roedd hyn yn cael ei gofnodi yn eu nodiadau. Roedd maes parcio yng nghefn yr adeilad ar gael yn ôl yr angen ac roedd ramp cludadwy yn cael ei ddefnyddio i alluogi pobl i gael mynediad i'r safle. Roedd desg y dderbynfa, ystafell aros a deintyddfa ar y llawr daear yn hygyrch i gleifion anabl â mynediad gwastad. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn egluro'r trefniadau hygyrchedd yn glir i'r cleifion ac yn eu cynghori i gysylltu â staff y dderbynfa i drafod anghenion penodol.

Nid oedd y toiled i gleifion yn hygyrch i gleifion anabl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynghori'r cleifion i ddefnyddio cyfleusterau gerllaw pe bai angen. Gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r daflen wybodaeth i gleifion i wneud hyn yn glir i'r cleifion, ac aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**
Gwelsom fod y practis mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd y safle yn lân ac yn daclus yr olwg, ac nid oedd unrhyw annibendod.

Roedd gan y practis bolisïau ar waith mewn perthynas â 'Iechyd a Diogelwch' a 'Sicrhau ansawdd ac addasrwydd cyfleusterau a chynnal a chadw cyfarpar'. Roedd trefniadau priodol ar gyfer ymdrin â deunyddiau o dan y gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a'u storio.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad cyfredol wedi'i gwblhau ar gyflwr y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom gofnodion yn dangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a bod cyfarpar diogelwch tân yn cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir yn dangos y llwybrau dianc, gydag allanfeydd ym mlaen a chefn yr adeilad. Roedd gwahanol fathau o ddiffoddwyr tân wedi'u gosod yn gywir ar y waliau ac roedd arwyddion i'w dangos, ac roeddent wedi cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd asesiad risg tân manwl ar waith a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gan mai staff mewnol oedd yn cynnal yr asesiad risg, gwnaethom argymell y dylid gofyn am gyngor allanol. Trefnodd y rheolwyr cofrestredig ymweliad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) ar unwaith yn dilyn yr arolygiad, a chadarnhawyd bod asesiad mewnol yn briodol yn yr achos hwn. Ni wnaeth GTAGC gynnal arolygiad llawn ond gwnaethant nodi rhai argymhellion, gan gynnwys diweddaru drysau i ddwy ardal a sicrhau bod nenfwd a drws yr islawr yn darparu gwrthiant tân digonol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddaru'r asesiad risg tân yn unol ag argymhellion a wnaed gan GTAGC yn eu llythyr wedi'i ddyddio 18 Rhagfyr 2025.**

Roedd gan y practis Gynllun Parhad Busnes cynhwysfawr a chyfredol, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a rhifau ffôn mewn argyfwng.

Roedd cyfleusterau newid ar gael i'r staff ynghyd â loceri storio ar gyfer eitemau personol.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif. Roedd toiled ar wahân ar gael i'r staff.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau priodol a threfniadau glanhau effeithiol. Roedd aelod o'r staff wedi'i ddynodi fel arweinydd rheoli heintiau.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda gan y staff. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ac yn cael eu cofnodi.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y practis yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith. Dywedodd un claf:

> ***"Rwyf wedi gweld y cyfarpar i gyd yn cael ei lanhau ar sawl achlysur. Roedd y staff yn gwisgo menig ac ati o'ch blaen er mwyn i chi wybod nad oeddent wedi cyffwrdd unrhyw beth arall."***

**Rheoli meddyginiaethau**

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gwelsom fod mesurau cadarn a diogel ar waith ar gyfer trin, storio a gwaredu meddyginiaethau. Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd gweithdrefnau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff. Roedd bin gwastraff clinigol yn cael ei storio'n allanol, a oedd wedi'i gloi a'i atodi'n sownd at yr adeilad er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn bod y rhain yn foddhaol, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Yn yr un modd, roedd pecynnau cymorth cyntaf ar gael ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd polisïau a gweithdrefnau cyfredol â siartiau llif hawdd cyfeirio atynt ar waith ac ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru ac roedd ganddynt yr ap ar eu ffonau symudol.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu oedolion a phlant. Y prif ddeintydd oedd yr arweinydd diogelu ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant addas hyd at lefel 3.

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**
Gwnaethom nodi bod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar.

Roedd ffeil diogelu rhag ymbelydredd wedi'i chwblhau'n dda yn y practis, ac roedd stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**
Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Dywedodd y staff wrthym sut roeddent yn cael gafael ar gyngor ac arweiniad proffesiynol ac yn eu dilyn. Fel practis bach, roedd y clinigwyr yn cynnal gwaith adolygu cymheiriaid anffurfiol yn fewnol.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Gwelsom dystiolaeth glir bod y practis yn buddsoddi mewn diweddaru cyfarpar i ddarparu gofal o safon uchel. Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau hyfforddiant ar endodonteg yn ddiweddar ac roedd wedi darparu'r cyfarpar perthnasol yn y practis.

**Cofnodion cleifion**
Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion deg claf a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon uchel. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd trylwyr, cynhwysfawr a chyson. Roedd hyn yn cynnwys siartiau sylfaenol, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau meinweoedd meddal ac archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, a phrofion sgrinio am ganser.

Roedd gennym un argymhelliad ynghylch presgripsiynu gwrthfiotigau, lle y gellid cynnwys rhagor o fanylion am y trefniadau o ran dosau a rhoi cyrsiau dros bum diwrnod yn hytrach na saith, yn unol â'r canllawiau cyfredol.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau ar gyfer gwrthfiotigau yn cael eu cyhoeddi yn unol â chanllawiau cyfredol, â manylion llawn yn cael eu cofnodi.**

## Effeithlon

**Effeithlon**
Roedd systemau electronig yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol, megis ymchwilio ac olrhain atgyfeiriadau ar-lein, a oedd yn sicrhau y gellid darparu gwasanaeth effeithlon.

Gwelwyd bod tîm sefydledig a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn darparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Roedd strwythurau rheoli wedi'u diffinio'n dda ar waith, a'r prif ddeintydd oedd y perchennog a'r rheolwr cofrestredig.

Gwelsom fod ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau.

Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, gyda chofnodion yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y staff yn cael arfarniadau blynyddol, â chyfle i drafod cynnydd ac anghenion hyfforddiant.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff wedi llofnodi a dyddio'r polisïau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Roedd safon uchel o gydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol, er nad oedd rôl benodol ar gyfer rheolwr y practis.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisïau a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd y rhain yn cynnwys prawf adnabod a thystiolaeth o gymwysterau a brechiadau. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal. Nid oedd y practis yn defnyddio staff asiantaeth neu locwm.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri aelod o'r staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Roedd cydymffurfiaeth dda iawn â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol ac roedd y systemau a oedd yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant ar gael i'r staff a'u bod yn cael eu hannog i barhau â'u datblygiad proffesiynol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu, â chodau ymateb cyflym (QR) a phwyntiau cyfathrebu agosfaes ar gael yn y practis, gan annog y cleifion i adael adolygiadau ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd blwch hefyd ar gael ar ddesg y dderbynfa ar gyfer sylwadau ac adborth.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn cael gwybod pan oedd adborth yn cael ei dderbyn a byddai'n ymateb pe bai gwneud hynny yn addas.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, gyda phoster yn cael ei arddangos yn amlinellu'r broses i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent hefyd yn rhoi copi o'r weithdrefn ar gais. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt, amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen.

Roedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion sawl corff allanol a allai helpu i ddatrys cwynion ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Nodwyd gennym nad oedd y weithdrefn yn cynnwys manylion y gwasanaeth eirioli Llais. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y ddogfen ei diweddaru.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd y gwasanaeth yn derbyn cwynion yn aml a byddai manylion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom gynghori bod cadw cofnodlyfr cwynion yn ymarfer da, oherwydd byddai trosolwg yn helpu i nodi unrhyw themâu neu faterion a oedd yn codi'n rheolaidd.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr ar waith i gofnodi manylion unrhyw gwynion sy'n cael eu derbyn, er mwyn gallu nodi unrhyw broblemau sy'n codi'n rheolaidd.**

Roedd gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**
Roedd y practis yn defnyddio amrywiaeth o gyfarpar i fonitro ansawdd y gwasanaeth a nodi gwelliannau. Roedd y rhain yn cynnwys yr Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol a chyfarpar gwella a oedd yn cael ei ddarparu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Roedd y practis hefyd yn cymryd rhan yn y cynllun ardystio Denplan Excel i ddarparu trefniadau sicrhau ansawdd pellach.

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith yn ymwneud â gweithgareddau gwella ansawdd.

Gwelsom dystiolaeth fod amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau ar wastraff gofal iechyd, iechyd a diogelwch, radioleg, rheoli heintiau, rhoi'r gorau i smygu, hylendid dwylo, gwella canser y geg a hanes meddygol.

## Dull systemau cyfan

**Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**
Roedd y practis yn rhyngweithio â phartneriaid allanol mewn modd effeithiol, gan ddefnyddio'r ffôn, e-bost a systemau ar-lein.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Toothopia

## Dyddiad yr arolygiad:09 Rhagfyr 2025

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â sicrwydd / diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Toothopia

## Dyddiad yr arolygiad:09 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r cynllun 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. | Dylai'r rheolwr cofrestredig ofyn am gyngor a chymorth gan y bwrdd iechyd lleol a rhoi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith. | Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | Cynnal cyfarfod practis i sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae deunyddiau cefnogol (laniardiau a bathodynnau) ar gyfer staff Cymraeg eu hiaith wedi cael eu harchebu drwy 'Helo Blod' (i gyrraedd y practis o fewn 10 diwrnod gwaith). Gellid darparu cofnodion o gyfarfod y practis fel tystiolaeth. | Miroslav Yakimov | 30/01/2026 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | Gallai cofnodion y cleifion gynnwys mwy o fanylion ynghylch presgripsiynu gwrthfiotigau a rhoi cyrsiau dros bum diwrnod yn hytrach na saith, yn unol â'r canllawiau cyfredol. | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau ar gyfer gwrthfiotigau yn cael eu cyhoeddi yn unol â chanllawiau cyfredol, â manylion llawn yn cael eu cofnodi. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20 | Bydd y practis yn ailadrodd yr archwiliad gwrthficrobaidd a gynhaliwyd yn 2024/24 a 2024/25, yn cymharu'r canfyddiadau â blynyddoedd blaenorol, ac yn trafod canfyddiadau â staff y practis i nodi unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol i wella prosesau presgripsiynu gwrthfiotigau. Bydd adnoddau hunanasesu dynodedig yn cael eu defnyddio, gan ystyried adnoddau AaGIC. | Miroslav Yakimov | 30/03/2026 |
| **3.** | Roedd asesiad risg tân ar waith. Gwnaethom argymell y dylid gofyn am gyngor allanol, a gwnaethpwyd hyn ar unwaith yn dilyn yr arolygiad. Nododd GTAGC rai argymhellion. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddaru'r asesiad risg tân yn unol ag argymhellion a wnaed gan GTAGC yn eu llythyr wedi'i ddyddio 18 Rhagfyr 2025. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22 | Rhoddwyd ystyriaeth i argymhellion a wnaed gan GTAGC a bydd asesiad risg tân y practis yn cael ei ddiweddaru ar sail hyn, gan gynnwys amserlen i'w rhoi ar waith (ar | Miroslav Yakimov | 30/01/2026 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gael i'w gyflwyno ar gais). | | |
| **4.** | Gwnaethom gynghori bod cadw cofnodlyfr cwynion yn ymarfer da, oherwydd byddai trosolwg yn helpu i nodi unrhyw themâu neu faterion a oedd yn codi'n rheolaidd. | Dylai'r rheolwr cofrestredig roi **cofnodlyfr** ar waith i gofnodi manylion unrhyw gwynion sy'n cael eu derbyn, er mwyn gallu nodi unrhyw broblemau sy'n codi'n rheolaidd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 5 | Creu cofnodlyfr cwynion. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohono ac yn cael ei annog i'w ddefnyddio'n briodol. | Miroslav Yakimov | 30/01/2026 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Miroslav Yakimov**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd a Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 18/01/2026**